

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod rithiol 12 Hydref 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Lliwen Griffith-Williams	
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Llŷr Evans	Eifion Williams	
Nerys John		
	Gareth Griffiths – Cynghorydd Sir	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cadeirydd Iwan Huws. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Iestyn Harris, Cynghorydd Casi Roberts, y Cynghorydd Dafydd Huws a'r Cynghorydd Cynog Prys.	
1.1	Ardal Ni 2035 - mae ffurflen wedi ei hanfon at bob aelod er mwyn iddynt gyflwyno eu hatebion ar y cwestiynau. Rhag ofn nad yw'r ffurflen wedi cyrraedd yr aelodau bydd y ffurflen yn cael eu hanfon eto. Bydd yr ymatebion yn cael eu gosod ar spreadsheet ac yna ei drafod os bydd angen ynghyd a'u hanfon at y Swyddog perthnasol. Y Clerc i sicrhau hyn.	CLERC
1.2	Ymgynghoriad Jet Skis – trafodwyd y mater a phenderfynu bod y Clerc yn anfon ymateb i ddangos cefnogaeth i'r bwriad.	CLERC
1.3	Ymgynghoriad Agored ar Ganllawiau Arfaethedig yn ymwneud ag "Egwyddorion Gweinyddu Da" a "Rheoli Cofnodion yn Dda" - Y Cyngor yn cadarnhau cefnogaeth i'r bwriad. Y Clerc i anfon ymateb.	CLERC
1.4	Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo - trafodwyd yr ymgynghoriad. Phenderfynwyd byddai'r Clerc yn llawr lwytho'r ffurflen ymateb, ei llenwi ac yna eu dosbarthu i bob aelod am eu sylwadau cyn bod y ffurflen yn cael ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru.	CLERC
1.5	Menter Môn - cafwyd eglurhad gan y Cadeirydd Iwan Huws i'r fenter hon. Cydnabuwyd cais gan aelod o'r Cymuned. Hefyd cofnodir bod y Cynghorydd Daniel Williams wedi ymweld â'r safle ar gyfer y cais a bod gwybodaeth bellach o'r safle wedi ei gyflwyno i'r ymgeisydd. Disgwylir am ymateb.	
1.6	Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2022 – cyflwynwyd fel gwybodaeth – nid oedd gan y Cyngor sylwad ar yr ymgynghoriad. Y Clerc i anfon ymateb.	CLERC
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	<p>Cyflwynodd y Cynghorydd Gareth Griffiths adroddiad ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun parcio i drigolion - rhai trigolion wedi gwneud cais ar gyfer hyn. Rhoddwyd sylw bod cynllun o'r math hyn gyda chost ac nid oedd yn gallu sicrhau lle parcio i bawb. Trafodwyd a phenderfynwyd cofnodi dim cefnogaeth i fath gynllun. • Roedd trigolyn ifanc wedi gwneud cais ar gyfer cael menter fel canolfan "drop in" gan fod llawer o unigrwydd wedi bodoli ynghanol y clo. Gan fod y 	GG

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	fenter yma yn ifanc nid oes unrhyw wybodaeth gadarnhaol eto, angen trafodaeth os fyddai'r neuadd ar gael ac yn addas ar gyfer y cynllun. Trafodwyd os byddai'r neuadd yn addas ac efallai byddai'r Felin Sgwrsio yn well. Y Cynghorydd Gareth Griffiths am ddod yn ôl at y Cyngor ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Iwan Hughes – eitem 6.7	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynwyd adroddiad gwariant mis Medi. Rhoddwyd sylw bod angen nodi bod lwfans y Clerc yn cael ei roi pob chew mis h.y. ar ddiwedd cyfnod gweithio chew mis. Nid ydyw yn cael ei dalu o flaen llaw. Derbyniwyd yr adroddiad.	
4.2	CYHOEDDI CYFRIFON ARCHWILIEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021 Gwybodaeth yn unig.	
	Cyflwynwyd anfonebau gan Gyngor Gwynedd: i. Anfoneb Gwasanaeth archwilio mewnol £210 ii. Anfoneb cyfraniad at gostau Toiledau'r Felinheli - £4000 Cytunwyd eu bod yn cael eu talu. Trafodwyd y toiledau a phenderfynu rhoi y toiledau ar agenda cyfarfod mis Tachwedd er mwyn trafod dyfodol y toiledau.	CLERC
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Medi 2021 fel rhai cywir.	CLERC
5.2	Yn codi o'r cofnodion: Gwaith priffyrdd - dim gwybodaeth bellach wedi dod i law. Afon Heulyn - ymateb wedi ei nodi o dan eitem Llwybrau Cyhoeddus. Mabwysiadu ciosg Lan y Môr – Y Clerc wedi gwenudd ymholiadau gyda BT, yn anffodus mae Cyngor Gwynedd wedi nodi gwrthwynebiad i ymgynghoriad cynllunio BT, bydd angne i Gyngor Gwynedd anfon at BT I ddatgan bod y Cyngor Cymuned eisiau mabwysiadu'r ciosg. Y Clerc i anfon at Gwasanethau Cyngor Gwynedd. Toiledau – disgwyl y method statement a'r asesiad risg gan y Cynghorydd Eifion Williams.	CLERC EW
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO - Cadeiriwyd eitem 6.7 gan y Cynghorydd Daniel Williams	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

6.1	<p>Rhif Cais: C21/0883/20/LL Lleoliad: Tir gyferbyn a Stryd Bangor, Y Felinheli, LL56 4JQ Bwriad : Cais ar gyfer gosod 3 uned gwyliau symudol a chreu llecynau parcio cysylltiol</p> <p>GWRTHWYNEBU:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Nid yw'r adeiladau yng nghyd fyd a chymeriad adeiladau'r pentref nag y chwaith chymeriad y datblygiad diweddar yr Halfway. ii. Nid yw dyluniad yr adeiladau yn gweddu yn weledol wedd weledol y pentref. <p>Rhagwelir bydd problemau gyda cherbydau yn cildroi i mewn i'r briffordd.</p>	
6.2	<p>Rhif Cais : C21/0892/20/DT Lleoliad: Rallt Bryn Y Waen, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QJ Bwriad : Cais ar gyfer codi estyniad un llawr to un-codiad i flaen a chefn yr eiddo</p> <p>SYLWAD – Dim gwrthwynebiad ond angen rhoi sylw bod rhan o'r wal gynnal yr hen rheilffordd wedi llithro.</p>	
6.3	<p>Rhif Cais : C21/0893/20/DT Lleoliad : Llifon Bryn Ffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SQ Bwriad: Dymchwel y modurdy presennol, codi estyniad deulawr, codi balconi ar y llawr cyntaf a lledu'r fynedfa bresennol.</p> <p>DIM GWRTHWYNEBIAD</p>	
6.4	<p>Rhif Cais : C21/0916/20/AC Lleoliad : Y Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN Bwriad : Cais ar gyfer diwygio amod 2 ac 8 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C20/1019/20/LL ar gyfer gosod 8 'tipi' a bloc toiledau a chawodydd ar gyfer defnydd gwyliau er mwyn newid dyluniad y bloc toiledau a chawodydd ynghyd ac ei gadw ar y safle yn barhaol.</p> <p>DIM GWRTHWYNEBIAD</p>	CLERC
6.5	<p>Rhif Cais: C20/0494/20/LL Lleoliad : Gwel Y Fenai (former Ferredo Site And Plas Brereton),, Caernarfon, LL55 1TP Bwriad: Datblygu parc gwyliau a hamdden i gynnwys 173 o borthdai gwyliau; 51 fflatiau gwyliau newydd eu hadeiladu; newid defnydd adeilad i 4 fflat gwyliau; adeiladu canolbwynt hamdden; ad-drefnu ac adnewyddu unedau diwydiannol; darpariaeth ar gyfer gwaith trin dŵr preifat; a meysydd parcio cysylltiedig, tirlunio, mynediad a ffyrdd mynediad mewnol.</p> <p>BYDD ADRODDIAD AR Y CAIS HWN YN CAEL EI ANFON MAES O LAW. BWRIEDIR CYNNAL CYFARFOD ARBENNIG I DRAFOD Y CAIS</p>	
6.6	<p>Rhif Cais: C21/0966/20/DT Lleoliad : 59 Y Wern, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4TZ Bwriad : Cais ar gyfer codi estyniad porth un llawr i flaen yr eiddo</p> <p>DIM GWRTHWYNEBIAD</p>	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>Rhif Cais: C21/0970/20/DT Lleoliad : 73 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PE Bwriad : Cais er mwyn codi ardal decin uwchlaw gardd cefn a gwaith tirlunio (Cynllun diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd C21/0417/20/DT)</p> <p>DIM GWRTHWYNEBIAD</p>	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU	
7.1	GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (ARDAL ARFON RHIF 13) 2021 - cyflwynwyd fel gwybodaeth yn unig	
7.3	GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (FFYRDD SIROL AMRYWIOL AR Y CYD Â FFORDD OSGOI CAERNARFON/BONTNEWYDD A487) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 a 40 M.Y.A. A DI GYFYNGIAD) 2021 Cyflwynwyd fel gwybodaeth yn unig.	
7.3	Bwlch yn y wal ger Hen Gei Llechi - roedd y Cynghorydd Gareth Griffiths wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r mater hwn hefyd. Dywedodd y bod y bwlch wedi ei gau gyda bariau bellach.	
7.3	Gafwyd Adroddiad bod gullies o fewn y pentref wedi eu llenni a baw. Roedd y mater wedi ei adrodd ar Gyngor Gwynedd. Bellach mae gweithred wedi bod.	
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	<p>Cofnodwyd yr isod ar fater Afon Heulyn: <i>Dwi mewn trafodaeth efo perchnogion Newydd y wal sydd yn rhedeg cyd ochr i'r llwybr cyhoeddus ger afon Heulyn, y rhan sydd ar gau ar hyn o bryd.</i></p> <p><i>Fel y gwyddost fod yr arwyneb ar y rhan yma o'r llwybr wedi ei ddifrodi gan lifogydd ac felly mae angen ei drwsio cyn gallwn ail agor y llwybr. Yn anffodus oherwydd y posibilrwydd i garreg copin ddisgyn o dop y wal nid ydyw yn ddiogel i ni wneud y gwaith tan fydd y perchennog wedi clirio'r tyfiant a sicrhau bod y cerrig copin i gyd yn sownd. Dwi wedi dweud wrth y perchen bod rhaid iddyn nhw waredu o'r tyfiant a thrwsio'r wal cyn gynted â phosib er mwyn i ni fedru ymgymryd ein Gwaith ni cyn canol mis Hydref ar yr hwyraf. Dwi wedi gofyn i [REDACTED] trefnu cael contractwr yn barod er mwyn trwsio'r arwyneb unwaith mae yn ddiogel i ni wneud hyn.</i></p> <p><i>Perchennog Newydd Bwthyn y Marina sydd wedi clirio rhan o'r wal ger y dock sydd yn ei feddiant.</i></p>	
8.2	Mae'r archwiliad blynyddol bron wedi ei gwblhau. Bydd yr adroddiad yn cael ei anfon at yr aelodau erbyn y CYfarfod mis Nesaf.	NJ/CLERC
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Cafwyd adroddiad bod bed wedi suddo yn y fynwent. Roedd y clerc wedi adrodd at yr ymgymwrwrac aroedd y gwaith o rhoi fwyo bridd ar y bed wedi ei drefnu.	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

9.2	Trefniant rhoi y biniau allan ar gyfer eu casglu i barhau ar hyn o bryd. Casgiad pob bythefnos.	
9.3	Torriad gwair olaf y tymor – y clerc i wneud ymholiadau os yw'r toriad wedi ei gwblhau neu oes angen gwneud un ychwanegol.	CLERC
9.4	Safel Moria – bydd y Cynghorydd Casi Roberts yn ymweld a'r safle gyda y Garddwr bore fory am 9.	
10.0	PROSIECTAU	
10.1	Cae Chwarae – rhoddwyd wybodaeth gan y Cynghorydd Emyr Gareth ei fod wedi cael trafferth cael ymateb gan y cwmni. Cafwyd ymateb yn diwedd ar roeddynt wedi addo anfon pris newydd ar gyfer y gwaith oherwydd bod yr un wreiddion yn hen. Roedd hefyd wedi addo anfon manylion cyflenwr lleol a fyddai yn gallu gwenud y gwaith. Bydd yn adrodd yn ol i'r Cyngor fel mae'r wybodaeth yn dod i law.	
10.2	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams bod gwaith plannu wedi ei wneud yn yr ardd ar flaen y Cae Chwarae. Cofnodir gwrthfawrogiad y Cyngor i'r trigolion sydd wedi bod yn gwenud y gwaith. Hyd yma mae £176.59 o blanhigion wedi eu planu.	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	Bellach mae fwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r neuadd – gyda un parti plant yn cael ei ganiatau ar dydd Sadwrn ac ar Ddydd Sul yn unig. Mae partion plant yn gallu cael eu bwcio dry'r wefan bellach. Mae dyddiadau penwythnosau yn unig yn cael eu hysbysebu.	
11.2	Mae gwathig angen ei wneud ar oleuadau y neuadd. Mae'r gwaith yma yn cael ei gwblhau mewn 4 rhan. <ul style="list-style-type: none"> i. Goleuadau toiledau, fynedfa a gwaelod y grisiau - £971.80 ii. Goleuadau tu allan £982.30 iii. Goleuadau i fewn yn y neuadd £625.86 iv. Goleuadau floodlights yn y neuadd £528.95 <p>Cytunwyd i'r gwaith gael i wneud mewn pedair rhan. Y Cynghorydd Daniel Williams i gysylltu a'r Contractwr.</p>	DW
11.3	Fe ymwelodd y pensaer a'r neuadd a chafodd gyfle i drafod y llawr a'r Contractwr. Cafwyd wybodaeth pellach i wella'r sefyllfa. Mae'r adroddiad wedi ei dderbyn a bydd y Contractwr yn newid ei bris i gymryd sylw o'r gwelliant. Chytunwyd bod hyn yn dderbyniad a bod y gwaith i symud ymlaen.	
11.4	Mae parcio yn nhalcen y neuadd yn pery problem gan bod defnyddwyr y neuadd yn gael eu hatal i dderfnyddio y safle parcio. Mae bollard sydd yn gallu cael ei godi i nadu parcio di ystyrion wedi ei archebu. Penderfynwyd gofyn i'r contracwr i'r osod.	DW
11.5	Gan bod neuadd yr eglwys wedi cau ar hyn o bryd, penderfynwyd byddai rhan o'r gwasanaeth coffa yn cael ei wneud yn y neuadd eleni. Y Clerc i gysylltu a'r Eglwys i sicrhau offeriad ar gyfer y gwasanaeth.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Mae'r Cynghorydd Eifion Williams amd drefnu cwblhau ffurfleni Cyngor Gwynedd ar gyfer cau y ffordd I drafnidaeth ar y diwrnod.	EW
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC/CR
13.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
	Sesiwn hyfforddiant wedi bod ar y safle i wybod sut mae defnyddio'r giatiau. Mae angen gweithdrefn ffurfiol a mae'r Cynghorydd Emyr Gareth yn gweithio ar hyn. Bydd grwp whats app yn cael ei ffurfio yn fuan. Hefyd mae ffurf o adrodd problemau drwy y wefan neu app mewn llaw.	
14.0	CAE CHWARAE YR YSGOL	
	Cawyd adroddiad bod cyflwr cae'r ysgol yn beryg ac oherwydd hyn mae ieuenctid y pentref yn gorfod chwarae eu gemau i gyd oddi cartref.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 22:00	
Llofnod:		Dyddiad: